# Nodiadau Canllaw ar gyfer Gwneud Cais am Ganiatâd Draenio Tir ar gyfer Cyrsiau Dŵr Cyffredin Teitl y Ddogfen

## Cyflwyniad

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn a'r ffurflen gais yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen. Os oes unrhyw beth yn y nodiadau canllaw hyn yr ydych yn ansicr ohono, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar waelod y ffurflen hon.

Yn y nodiadau canllaw hyn mae gwybodaeth i'ch helpu chi lenwi'r ffurflen gais am Ganiatâd Draenio Tir ar gyfer Cwrs Dŵr Cyffredin.

Cyn llenwi'r ffurflen hon rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni am gyngor ynghylch eich cynnig. O dan Ddeddf Draenio Tir 1991, mae angen caniatâd arnoch os ydych am adeiladu cwlfert neu strwythur (fel cored) i reoli llif dŵr ar unrhyw gwrs dŵr cyffredin.

Codir tâl o £50.00 AM BOB strwythur neu system weithredu am geisiadau a wneir o dan y Ddeddf Draenio Tir.

### 1 – Yr Ymgeisydd

Rhaid i ymgeiswyr lenwi pob rhan o'r adran hon; caiff y caniatâd ei roi i'r enw a roddir yn yr adran hon. Gofalwch eich bod yn rhoi pob gwybodaeth y gofynnir amdani er mwyn i ni fedru cysylltu â chi'n gyflym yn ystod y broses ymgeisio. Gallai methu â rhoi digon o wybodaeth olygu bod y cais yn cael ei wrthod ac yn cael ei ddychwelyd at yr ymgeisydd.

## 2 – Manylion yr Asiant

Os oes asiant yn gweithredu ar ran unigolyn neu sefydliad, dylid llenwi'r adran hon. Gofalwch eich bod yn rhoi pob gwybodaeth y gofynnir amdani neu fe allai'r cais gael ei wrthod a'i ddychwelyd at yr ymgeisydd.

Yn ystod y broses ymgeisio, cysylltir yn y lle cyntaf â'r asiant a chaiff y caniatâd ei roi i'r asiant dan enw'r ymgeisydd.

## 3 – Eich Buddiant yn y Tir

Mae angen i ni wybod pa fuddiant sydd gennych yn y tir lle caiff y gwaith ei wneud (er enghraifft, ai chi yw perchennog y tir neu a ydych chi'n denant?) Os caiff gwaith ei wneud ar dir nad yw'n eiddo i chi, bydd angen i chi gael cydsyniad y perchennog, oherwydd nid yw'r caniatâd hwn yn rhoi awdurdod i chi fynd ar dir. Cewch wybod pwy yw perchennog y tir drwy fynd i wefan y Gofrestrfa Tir.

## 4 – Lleoliad y Gwaith Arfaethedig

Mae angen i ni fedru adnabod yn hawdd ble caiff y gwaith arfaethedig ei wneud. Rhowch y manylion canlynol:

- Lleoliad y safle;
- Enw'r cwrs dŵr, os yw'n hysbys;
- Cyfeirnod y Grid Cenedlaethol (12 ffigur).

Gallai methu â rhoi lleoliad manwl olygu oedi cyn ystyried y cais neu fod y cais yn cael ei wrthod ac yn cael ei ddychwelyd at yr ymgeisydd.

## 5 – Disgrifiad o'r Gwaith a'i Bwrpas

Mae'n bwysig eich bod yn disgrifio'n gywir y cynigion yn y cais. Dywedwch wrthym bwrpas y gwaith a nifer y strwythurau y mae angen caniatâd arnoch ar eu cyfer.

## 6 – Dogfennau Ategol

I ystyried eich cynigion bydd arnom angen cynlluniau a lluniadau ar raddfa briodol, a'r rheini wedi'u creu gan beiriannydd neu syrfëwr cymwys ac yn dangos Datwm Ordnans Newlyn (uchder uwchlaw lefel y môr).

Mae angen i chi roi TRI chopi o bob lluniad perthnasol Rhaid i'r lluniadau beidio â bod yn fwy na maint A0 a rhaid iddynt gynnwys y canlynol:

**Map o'r Lleoliad**

Rhaid bod hwn ar raddfa briodol ac yn seiliedig ar fap Arolwg Ordnans. Rhaid iddo ddangos yn glir leoliad cyffredinol y safle lle caiff y gwaith arfaethedig ei wneud a rhaid cynnwys nodweddion cyffredinol ac enwau strydoedd. Rhaid iddo hefyd ddangos y cwrs dŵr neu gyflenwad arall o ddŵr yn yr ardal o amgylch.

**Cynllun o'r Safle (Y trefniant cyffredinol)**

- Rhaid i chi gyflwyno cynllun o'r safle yn dangos:
- Y safle presennol gan gynnwys unrhyw gyrsiau dŵr;
- Eich cynigion;
- Lleoliad unrhyw strwythurau a allai ddylanwadu ar hydroleg afonydd lleol, gan gynnwys, pontydd, pibau a chwndidau, ffyrdd o groesi'r cwrs dŵr, cwlfertau a sgriniau, cloddiau, waliau, gollyngfeydd ac ati;
- Ysgolion pysgod presennol neu strwythurau eraill i helpu pysgod i nofio i fyny ac i lawr yr afon.

Dylid llunio'r cynllun i raddfa briodol, a rhaid nodi'r raddfa honno'n glir.

**Croestoriadau**

Lle mae gwaith yn amharu ar unrhyw gwrs dŵr dylech gyflwyno croestoriadau yn edrych i fyny ac i lawr yr afon o'r gwaith arfaethedig. Dylid llunio'r croestoriadau fel pe baech yn edrych i lawr yr afon ar y cwrs dŵr, a dylai gynnwys manylion unrhyw nodweddion presennol ac arfaethedig a hefyd lefelau'r dŵr.

**Lluniau hydredol**

Bydd angen lluniau hydredol ar hyd llinell ganol y cwrs dŵr. Rhaid iddynt ddangos unrhyw nodweddion presennol ac arfaethedig, gan gynnwys lefelau'r dŵr, lefel gwely'r cwrs dŵr ac unrhyw strwythurau. Dylent ymestyn am bellter addas i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'r gwaith arfaethedig.

**Lluniadau Manwl**

Diben y rhain yw dangos manylion nodweddion presennol ac arfaethedig fel y canlynol:

- Y deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer unrhyw strwythurau;

- Lleoliad unrhyw bibau neu geblau gwasanaeth arfaethedig a allai effeithio ar y gallu i gynnal a chadw'r cwrs dŵr yn y dyfodol;
- Manylion unrhyw goed, llwyni, gwrychoedd, llynnoedd neu wlyptiroedd y gallai'r gwaith arfaethedig effeithio arnynt;
- Manylion plannu a hadu;
- Cronfeydd a goredau (gan gynnwys cynllun yn dangos hyd a lled y dŵr sy'n cronni dan amgylchiadau arferol ac mewn llifogydd; rhaid i'r cynlluniau ddangos hefyd unrhyw ddraeniau tir yr effeithir arnynt.)

## 7 – Manylion Adeiladu

Bydd angen i chi gael caniatâd ar wahân ar gyfer gwaith parhaol ac unrhyw waith dros dro nad yw'n rhan o'r gwaith parhaol. Gallai gwaith dros dro gynnwys, er enghraifft, cist-argaeau neu osod bagiau tywod ar draws cwrs dŵr neu ddargyfeirio dŵr dros dro tra bydd gwaith yn cael ei wneud.

Ar gyfer unrhyw waith dros dro, bydd angen i ni gael "Datganiad Dull" sy'n cynnwys manylion penodol am y camau y bwriadwch eu cymryd i gadw ymyrraeth i'r lleiafswm ac i liniaru unrhyw effeithiau dianghenraid tra bydd y gwaith yn cael ei wneud.

Rhaid i bob cais a gyflwynir nodi'n glir a glynu wrth y safonau gwaith a amlinellir yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Canllawiau ar gyfer Gwaith Atal Llygredd a chynnal a chadw yn neu ger dŵr.

Bydd angen i ni hefyd gael gwybod pryd yr ydych yn bwriadu dechrau'r gwaith ac am ba hyd y tybiwch y bydd yn para. Wrth i chi gynllunio'r gwaith, mae'n bwysig eich bod yn rhoi digon o amser i ni ystyried eich cynigion ac i roi caniatâd i chi.

## 8 – Gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Os byddwch wedi ateb "Ydy" i unrhyw rai o'r cwestiynau bydd angen i chi gysylltu ni am gyngor.

## 9 - Caniatâd Cynllunio

Rhowch fanylion unrhyw ganiatâd cynllunio sydd gennych neu yr ydych yn gwneud cais amdano sy'n ymwneud â'r cais hwn.

## 10 – Cynnal a Chadw'r Strwythur

Mae angen i ni wybod pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r gwaith ddod i ben.

## 11 – Yr effaith ar yr amgylchedd

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, felly rhaid i ni ystyried effaith eich cynnig ar yr amgylchedd. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud arfarniad amgylcheddol i asesu effeithiau eich gwaith. Dylech gysylltu â ni cyn anfon eich cais er mwyn i ni roi cyngor i chi am hyn. Os na wnewch hynny gallai'ch cais gael ei ddal yn ôl neu ei wrthod.

Dylai'r arfarniad amgylcheddol nodi'r holl effeithiau tebygol ar yr amgylchedd Dylech ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gwaith ar y safle ac ar nodweddion o ddiddordeb a rhywogaethau o werth penodol.

Rhaid i bob cais a gyflwynir nodi'n glir a glynu wrth y safonau gwaith a amlinellir yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Canllawiau ar gyfer Gwaith Atal Llygredd a chynnal a chadw yn neu ger dŵr.

Dylech sôn am unrhyw fesurau penodol y byddwch yn eu rhoi ar waith i gadw unrhyw ymyrraeth i'r lleiafswm ac i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol cyn i'r gwaith gael ei wneud.

Dylech sôn hefyd am unrhyw gyfle fydd gennych i wella gwerth amgylcheddol y safle. Gallai hyn gynnwys creu nodweddion dŵr, plannu coed a llwyni a fyddai fel arfer yn tyfu yn y safle, darparu blychau adar neu greu lleoedd cynaliadwy i fywyd gwyllt fyw ynddyn nhw.

Os ydym, fel rhan o'r caniatâd cynllunio, wedi gofyn am arfarniad amgylcheddol, rhaid i chi anfon hwnnw atom gyda'r holl ddogfennau ategol eraill sydd eu hangen arnom.

Os yw'ch safle o fewn gwarchodfa natur, neu yn ymyl gwarchodfa natur neu'n gysylltiedig â hi, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich cynigion cyn anfon eich cais.

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd, rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw'r Caniatâd Draenio Tir yn cael effaith negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar unrhyw safle a bennir yn y rheoliadau, gan gynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
- Ardaloedd cadwraeth arbennig dynodedig (ACA);
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA);

- Safleoedd cadwraeth RAMSAR;
- Henebion cofrestredig

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i ni ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru; efallai yr hoffech chithau gysylltu â nhw i gael eu barn am eich cynigion.

## 12 – Datganiad

Drwy lofnodi'r adran hon rydych yn datgan, cyn belled ag y gwyddoch, bod yr wybodaeth a roddwyd gennych, gan gynnwys y map a'r dogfennau ategol, yn wir ac yn gywir. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais heb ei lofnodi.

- Os ydych yn gwneud cais fel cwmni sydd ag ymddiriedolwyr rhaid i bob ymddiriedolwr lofnodi'r datganiad;
- Os ydych yn gwneud cais fel cwmni cyfyngedig rhaid i ysgrifennydd neu gyfarwyddwr lofnodi'r datganiad.

Os hoffech help i lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â ni:

E-bost:FDCP@carmarthenshire.gov.uk

Byddem yn gwerthfawrogi adborth ar y broses ymgeisio fel y gallwn barhau i'w gwella.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion cyfathrebu fel gwybodaeth mewn iaith arall neu ar ffurf arall (er enghraifft print bras, Braille neu gryno ddisg).